

Croeso i gylchlythyr trwyddedu rhywogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymgysylltu a cwsmeriaid

Diolch i bawb a fynychodd un o'r tri digwyddiadau ymgysylltu a gynnalwyd ar draws cymru. Cawsom y cyfle i gwrdd â'n cwsmeriaid mwen ymarfer gwerthfawr ac rydym yn gobeithio bod y rhai a fynychodd wedi elwa o'r profiad.

Rydym wedi dadansoddi'r ffurflenni adborth a oedd yn dangos eich bod yn gefnogol i'r fenter. Bydd yr adborth yn ein helpu i wella fformat a chynnwys y digwyddiadau yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw syniadau ar y math o ddigwyddiadau yr hoffech ei weld neu bynciau penodol hoffech chi eu trafodyn y dyfodol, cysylltwch â ni ar trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk



Derbyn ceisiadau

Er mwyn darparu gwell gwasanaeth rydym yn dod yn fwy llym yn ein gweithdrefn o dderbyn cais.

Ar hyn o bryd rydym yn derbyn ceisiadau lle mae rhywfaint o'r gwybodaeth yn ddiffygiol neu ar goll, mae hynny yn golygu ein bod yn rhedeg ar ôl y wybodaeth gyda'r cwsmer.

Mae'r polisi hwn yn arwain at waith sylweddol ar ran ein staff cymorth ac yn arwain at nifer o geisiadau yn cael ei ddal yn ol ac yn ein hambyrddau arfaeth am fisoedd.

O fis Ionawr ni fydd y tîm yn derbyn ceisiadau os nad yw'r holl wybodaeth berthnasol ynghlwm, mae hyn yn cynnwys prawf o ollyngiadau amod cynllunio.

Datganiadau dull

Yn y diweddariad diwethaf wnaethom dynnu sylw at yr angen i ddefnyddio'r templed datganiad dull CNC wrth wneud cais am drwydded rywogaethau Ewropeaidd a warchodir. **Noder ni fydd ceisiadau yn ddefnyddio fformatau eraill yn cael eu derbyn mwyach.**

Taliadau cyngor dewisiol

Ar hyn o bryd mae CNC yn ymgynghori ar eu taliadau arfaethedig ar gyfer 2017/18. Mae hyn yn cynnwys cynnig i godi tâl am gyngor dewisol cyn ymgeisio ar draws ein holl gyfundrefnau caniatáu.

Gall y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol arnoch chi / eich busnes. Gan fod llawer o'n cwsmeriaid yn gofyn am gyngor mewn perthynas â cheisiadau rhywogaethau roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig i ddod a'r ymgynghoriad hwn i'ch sylw.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein welfan <https://naturalresources.wales/about-us/consultations/our-own-consultations/consultation-on-our-charging-scheme-for-2017-18/?lang=cy>

Cymerwch amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori os gwelwch yn dda. Y dyddiad ar gyfer ymatebion yw 13 Ionawr 2017.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddiwrth y Tîm Trwyddedu Rhywogaethau.



Dylid cyfeirio pob ymholiad trwy'r Adran Ymholiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar 03000653000